# Astudiaeth Trafnidiaeth A483 WelTAG Cam Un

Llywodraeth Cymru

## Crynodeb o Adroddiad WelTAG Un

B2231900-D4-5-002 | 0

2 Hydref 2018

Fframwaith Ymgynghori Trafnidiaeth Tasg 1/14

# Astudiaeth Trafnidiaeth A483 WelTAG Cam Un

| | |
|---|---|
| Rhif Prosiect: | B2331900 |
| Teitl Dogfen: | Crynodeb Adroddiad WelTAG Un |
| Rhif Dogfen: | B2231900-D4-5-002 |
| Adolygiad: | 0 |
| Dyddiad: | 2 Hydref 2018 |
| Enw Cleient: | Llywodraeth Cymru |
| Rhif Cleient: | Fframwaith Ymgynghori Trafnidiaeth Tasg 1/14 |
| Rheolwr Prosiect: | Julie Hunt |
| Awdur: | Voirrey Costain |
| Enw Ffeil: | P:\Transport\Projects\B2331900 Llandeilo Bypass\5. Project Work\A. Reporting\B2231900-D4-5-002 WelTAG Summary Report.docx |

Jacobs U.K. Ltd

Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd, CF10 2HH
Y Deyrnas Unedig
T +44 (0)29 2035 3200
Ff +44 (0)29 2035 3222
www.jacobs.com

© Hawlfraint 2018 Ltd. Eiddo Jacobs yw'r cysyniadau a'r wybodaeth sydd yn y ddogfen hon. Mae defnyddio neu gopïo'r ddogfen hon yn gyfan gwbl neu'n rhannol heb ganiatâd ysgrifenedig Jacobs yn golygu torri hawlfraint.

Cyfyngiad: Paratowyd y ddogfen hon ar ran, ac ar gyfer defnydd cleient Jacobs yn unig, ac mae'n ddarostyngedig i ddarpariaethau'r contract rhwng Jacobs a'r cleient, ac yn cael ei chyhoeddi yn unol â hynny. Nid yw Jacobs yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb o gwbl am unrhyw ddefnydd o, neu ddibyniaeth ar, y ddogfen hon gan unrhyw drydydd parti.

## Hanes a statws y ddogfen

| Adolygiad | Dyddiad | Disgrifiad | Gan | Adolygu | Cymeradwyo |
|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 3/10/18 | Adroddiad Cryno at ddefnydd y Cleient | VC | TJ | JA |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ Error! Bookmark not defined.
1.1 Cefndir ........ **Error! Bookmark not defined.**
**2. Methodoleg** ........ **2**
**3. Materion Pryder ac Amcanion y Cynllun** ........ **4**
3.1 Materion Allweddol ........ 4
3.2 Amcanion y Cynllun ........ **Error! Bookmark not defined.**
**4. Opsiynau Rhestr Hir** ........ Error! Bookmark not defined.
4.1 Arfarniad Amgylcheddol ........ 17
**5. Argymhellion** ........ Error! Bookmark not defined.
5.1 Opsiynau Rhestr Fer ........ 23
5.2 Effeithiau i'w hystyried yng Ngham Dau WelTAG ........ 29
5.3 Anghenion deddfwriaethol perthnasol i Gam Dau WelTAG ........ **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir


Mae Jacobs UK Ltd (Jacobs) a Mott Macdonald wedi cael eu comisiynu i ymgymryd ag Asesiad Cam Un WelTAG i ganfod yr angen am gynllun gwella trafnidiaeth i fynd i'r afael â sawl mater o bryder ynghylch y rhwydwaith ffyrdd cyfredol yn nhref Llandeilo a phentref Ffair-fach yn Sir Gaerfyrddin.

## 1.2 Ardal yr Astudiaeth

Mae Ffigur 1-1 isod yn dangos yr ardal dan sylw, ar hyd yr A483 yn Llandeilo a Ffair-fach, a dyna yw canolbwynt yr astudiaeth hon. Mae'n dilyn yr A483 o'i chyffordd gyda'r A40 i'r gogledd o Landeilo trwodd i'r de o Ffair-fach, tu hwnt i'r gyffordd gyda'r A476. Dyma'r un ardal sy'n peri pryder ag sydd wedi'i hastudio'n flaenorol.

Lleolir y rhan yma o'r A483 yng nghanol tref Llandeilo ac mae'n ffurfio'r stryd fawr (Stryd Rhosmaen). Mae'r A483 is yn ffordd ddwyffordd gyda mannau parcio a llwytho mewn amryw leoliadau ar ei hyd. Mae llinellau melyn dwbl yno lle mae'r ffordd yn culhau. Mae nifer o strydoedd ochr oddi ar yr A483, ac mae traffig sy'n ceisio ymuno â'r A483 yn cael trafferth gweld a yw'r ffordd yn glir ar lawer ohonynt. Mae troetffyrdd ar hyd y rhan fwyaf o'r A5483 trwy Landeilo a Ffair-fach, ond maent yn gul mewn sawl man, gan orfodi cerddwyr i gerdded mewn un rhes. I'r gogledd o Landeilo, mae'r A483 yn cyfarfod â'r A40, ac i'r de, mae'n cyfarfod â'r A476 i'r gogledd o orsaf reilffordd Ffair-fach.

**Ffigur 1-1 – Ardal yr Astudiaeth yn Llandeilo a Ffair-fach**



# 2. Methodoleg

Mae nodi materion presennol ac amcanion y cynllun, ynghyd â nodi'r opsiynau ar y rhestr hir a'r rhestr fer wedi ystyried y pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi bod yn ganolog trwy drwy gydol yr astudiaeth ac mae adrodd ar hyn yn glir yng Ngham Un WelTAG: Adroddiad Opsiynau Strategol a Cham Un WelTAG: Adroddiad Asesu Effaith. Fodd bynnag, er mwyn amlygu manylion yr asesiad ar wahân, paratowyd Adroddiad ar Ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ogystal, a'i atodi at yr Adroddiad Opsiynau Strategol.

Mae WelTag yn broses sy'n mynd â phrosiect drwy bum cam, o nodi problemau ac amcanion prosiect hyd at adolygiadau ôl-weithredu.

Cam cyntaf y gwaith a wnaed fel rhan o'r asesiad hwn oedd nodi'r prif faterion trafnidiaeth sy'n effeithio ar Landeilo a Ffair-fach. Cyflawnwyd hyn trwy gyfres o weithdai, digwyddiadau fforwm cyhoeddus a barn broffesiynol yn seiliedig ar adolygiadau gwybodaeth mewnol desg ac ymweliadau safle.

Ar ôl nodi'r angen am ryw fath o gynllun ymyrryd, cytunwyd ar amcanion y prosiect. Ystyriwyd amcanion y cynllun, ynghyd ag Amcanion Llesiant perthnasol cyrff cyhoeddus, wrth asesu opsiynau.

Yn ystod yr ail weithdy a'r ddau ddigwyddiad fforwm cyhoeddus, gofynnwyd i randdeiliaid nodi atebion a allai fynd i'r afael â'r materion pryder. Cafodd yr atebion hyn, ynghyd ag atebion pellach a nodwyd gan y tîm prosiect, eu crynhoi i lunio rhestr hir o opsiynau. Datblygwyd yr opsiynau yma ymhellach ar sail adborth yn y gweithdai a'r fforymau cyhoeddus.

Cam cyntaf proses WelTAG yw Cam Un: Achos Amlinellol Strategol [AAS]. Pwrpas Cam Un yw *'deall y pryder dan sylw, archwilio'r cyd-destun a chyflwyno rhestr eang o atebion posibl, sy'n ddigon i allu penderfynu a oes unrhyw atebion posibl yn y sector trafnidiaeth y mae'n werth mynd ar eu hôl nhw ac i ddewis rhestr fer o opsiynau ar gyfer eu hystyried yn fanylach.'*

O ganlyniad, bydd yr AAS hwn yn:

- Cynhyrchu disgrifiad clir, seiliedig ar dystiolaeth, o'r materion dan sylw a'r problemau dilynol;
- Dadansoddi'r ffactorau sy'n cyfrannu at y materion;
- Sefydlu amcanion;
- Llunio rhestr hir o opsiynau;
- Cynnig argymhellion ynghylch yr opsiynau a ddylai fynd ymlaen i arfarniad Cam Dau WelTAG trwy asesu'r rhestr hir o opsiynau; a
- Llunio rhestr fer o opsiynau.

Mae'r penderfyniad ynghylch pa opsiynau sydd yn mynd ymlaen i Gam Dau yn seiliedig ar wybodaeth yn y pum achos a nodwyd uchod a:

- Eu gallu i ddatrys y broblem;
- Eu gallu i ddiwallu'r amcanion a nodwyd;
- Eu heffeithiau byrdymor a mwy hirdymor;
- Ymarferoldeb eu gwireddu; a
- Eu cadernid yn wyneb ansicrwydd.

Ar y pwynt hwn, ystyrir bod y wybodaeth hon ar lefel uchel, yn seiliedig ar ymweliadau safle ac ymchwil desg. Os nad yw'r effaith wedi ei asesu eto, nodir hyn yn yr adroddiad trwy ddefnyddio'r acronym EIA (Eto I'w Asesu).. Mae tabl crynodeb o'r effeithiau a nodwyd yn dangos cymhariaeth matrics lliw o'r opsiynau. Yn unol â WelTAG, cyflwynir arwyddocâd a graddfa effeithiau pob opsiwn trwy ddefnyddio graddfa saith pwynt, a amlinellir yn Tabl 2 1 isod:

**Tabl 2 1: Graddfa Asesiad Saith Pwynt WelTAG**

| | | |
|---|---|---|
| **Buddion mawr** | | **+++** |
| **Buddion canolradd** | | **++** |
| **Ychydig o fuddion** | | **+** |
| **Niwtral** | | **0** |
| **Ychydig o anfanteision** | | **-** |
| **Anfanteision canolradd** | | **--** |
| **Anfanteision mawr** | | **---** |

# 3. Materion Pryder ac Amcanion y Cynllun

## 3.1 Materion Allweddol

Mae Tabl 3 1 yn manylu ar y materion pryder a nodwyd yn nyddiau cynnar yr astudiaeth trafnidiaeth yma.

**Tabl 3 1: Materion Pryder**

| Problem Allweddol | Mwy o Fanylion |
|---|---|
| Mynediad at orsafoedd rheilffordd | Mae diffyg gwybodaeth i gyfeirio cerddwyr o orsaf reilffordd Llandeilo tuag at ganol tref Llandeilo. Yn ogystal, mae'r llwybr at yr orsaf o ansawdd gwael ac yn anaddas ar gyfer pobl llai abl i symud ac yn anhygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn. |
| Cau amwynderau lleol | Mae pryderon y gall tagfeydd yn Llandeilo ostwng niferoedd ymwelwyr â'r dref, sy'n arwain at heriau economaidd i fusnesau. |
| Croesi Stryd Rhosmaen / A483 (gwahanu) | Mae'r llif traffig trwy Landeilo, yn enwedig cerbydau HGV ar adegau prysur, yn gwneud croesi'r A483 ar hyd Stryd Rhosmaen yn beryglus i gerddwyr. Mae croesfan sebra yn y dref, ynghyd â goleuadau i gerddwyr, ond mae pryder fod pobl sy'n croesi'r ffordd mewn mannau eraill mewn perygl o gael eu taro gan draffig . |
| Croesi / gwelededd wrth gylchfan Ffair-fach | Mae'r palmentydd ar gylchfan Ffair-fach yn gul, yn enwedig ble mae plant yn cerdded rhwng Llandeilo ac Ysgol Bro Dinefwr. Ystyrir bod y gwelededd yn wael yn y lleoliad yma. |
| Amser ymateb gwasanaeth argyfwng (gwasanaeth tân ar alwad) | Roedd pryderon penodol ynghylch yr amser mae'n gallu ei gymryd i ddiffoddwyr tân ar alwad gyrraedd yr orsaf dân pan mae tagfeydd yn Llandeilo a Ffair-fach. Gorsaf ar alwad yw'r orsaf dân, sy'n golygu bod yn rhaid i ddiffoddwyr tân ddefnyddio'u cerbydau eu hunain i gyrraedd yr orsaf cyn defnyddio'r cerbydau tân, sydd â blaenoriaethau golau glas trwy dagfeydd. |
| Datblygiad i'r dyfodol | Mae pryderon ynghylch pa mor ddeniadol yw Llandeilo i ddatblygiad yn y dyfodol ac am allu'r rhwydwaith trafnidiaeth lleol i ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel y nodir yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (mae dyraniadau tir yn Llandeilo ar gyfer datblygiad yn y dyfodol). |
| Math o gerbydau (traffig HGV) | Mae cerbydau HGV, trelars gwartheg a bysiau i'w gweld yn defnyddio'r A483 i gyrraedd busnesau, ysgolion a threfi eraill, fel Llandybïe a Rhydaman, a gall hyn arwain at dagfeydd oherwydd cyflymder isel yn sgil graddiannau, cyfyngiadau lled, a faint o le maen nhw ei angen wrth symud trwy Landeilo a Ffair-fach. |
| Dibynadwyedd/gwydnwch teithio | Nodwyd bod llif traffig yn dymhorol, gan adlewyrchu statws Llandeilo fel tref dwristaidd, gydag atyniad pellach Parc yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. O ganlyniad, mae Llandeilo'n profi cynnydd mewn traffig yn ystod misoedd yr haf o'i gymharu â misoedd y gaeaf. |
| Lefelau sŵn | Cyfrennir at sŵn yn ardaloedd Llandeilo a Ffair-fach gan gyflymder teithio cerbydau, y math o gerbydau, llif traffig ac agosrwydd adeiladau at y ffordd a'r diffyg gwasgariad oherwydd hyn. |
| Nifer cerddwyr | Ystyrir ei bod yn debygol fod llai o gerddwyr yn mynd i Landeilo neu Ffair-fach ar droed o ganlyniad i'r llif traffig ar yr A483, ac y byddai gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth yn annog teithio llesol gan gerddwyr. |
| Parcio | Mae gwrthdaro rhwng y cerbydau sydd wedi'u parcio ar y stryd a thraffig symudol, gan arwain at dagfeydd lleol. Mae parcio arhosiad hir ar yr A483 yn digwydd yn sgil diffyg parcio preswyl oddi ar y stryd ar gyfer llawer o eiddo yn Llandeilo. Mae cyfuniad o fannau parcio talu ac arddangos nad ydynt yn cael eu defnyddio ar |

| Problem Allweddol | Mwy o Fanylion |
|---|---|
| | Heol Cilgant a pharcio ceir am ddim yn Stryd y Brenin yn awgrymu bod gyrwyr o bosibl yn anfodlon talu am barcio. Ymddengys hefyd fod diffyg gorfodaeth. Mae hyn yn arwain at barcio ychwanegol ar y stryd, yn enwedig mewn parthau 'Llwytho yn Unig'. |
| Diogelwch cerddwyr | Mae'n rhaid i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr ddefnyddio palmentydd cul trwy Landeilo a Ffair-fach gyfan oherwydd prinder yn y lle sydd ar gael. Mae agosrwydd cerbydau HGV i'r troetffyrdd hyn yn arwain at brofiad bygythiol i'r sawl sy'n cerdded neu'n beicio. Mae hefyd yn anodd i ddefnyddwyr cadeiriau gwthio/cadeiriau olwyn gan fod yn rhaid i gerddwyr gerdded mewn un rhes ar y mwyafrif o droetffyrdd. Mae ansawdd a nifer y mannau croesi oddi mewn i'r ardaloedd yn aml yn wael, gan nad oes gan lawer ohonynt balmant botymog neu gyrbiau isel. |
| Ansawdd aer gwael | O ganlyniad i gerbydau segur, stopio a chychwyn, symud heibio i gerbydau sydd wedi parcio, cychwyn ar oledd (oherwydd y graddiant i'r gogledd o ganol tref Llandeilo) ac agosrwydd adeiladau at y ffordd sy'n lleihau gwasgariad, mae llygredd yn broblem yn nhref Llandeilo. Yn ogystal, mae stad ddiwydiannol yn Llandeilo lle y gallai busnesau gweithgynhyrchu fod yn cyfrannu at lygredd. Mae Stryd Rhosmaen yn Llandeilo ar ei hyd wedi ei phennu fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer. |
| Amgylchedd beicio gwael | Pan gynhaliwyd ymweliad safle, ni welwyd beicwyr yn Llandeilo na Ffair-fach yn sgil rhwystrau i feicio fel y mathau o gerbydau sy'n defnyddio'r A483 a'r diffyg seilwaith beicio sydd yn ei le, fel llwybr beicio ar y ffordd neu oddi ar y ffordd. Ychydig o reseli i feics sydd ar gael yn Llandeilo a Ffair-fach, gyda dim ond gorsaf reilffordd Llandeilo'n darparu tair rhesel i feics lle gall beicwyr ddiogelu eu beiciau. |
| Trafnidiaeth gyhoeddus | Mae ansawdd y safleoedd bws sydd ar gael yn Llandeilo a Ffair-fach o safon dda, ond mae amlder bysiau'n ysbeidiol. Mae gorsafoedd rheilffordd Llandeilo a Ffair-fach yn cynnig arddangosiadau a gwybodaeth amser real, ond mae angen gwaith cynnal a chadw a moderneiddio ar y cysgodfeydd, fod bynnag. Gall hyn, ynghyd ag anfynychder gwasanaethau trên i bentrefi a threfi cyfagos, annog preswylwyr ac ymwelwyr i beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. |
| Geometreg ffordd a swyddogaeth strategol yr A483 | Nid yw nifer o gyffyrdd a rhannau o'r A483 yn cydymffurfio â'r safonau cyfredol, a gall hynny leihau capasiti ac amharu ar ddiogelwch cyffredinol y rhwydwaith. Yn benodol, mae mannau cyfyng oherwydd agosrwydd adeiladau sy'n arwain at dagfeydd lleol a throetffyrdd cul. Mae diffyg gwelededd i yrwyr sy'n ymuno â'r A483 o gyffyrdd wedi ei amlygu fel mater a allai arwain at ddamweiniau gyda cherbydau neu gerddwyr eraill.<br><br>Ymhellach, mae mynediad cefn cyfyngedig ar gyfer eiddo manwerthu sydd wedi'u lleoli ar hyd yr A483 ac felly mae'n rhaid i gerbydau gwasanaethu barcio a llwytho ar yr A483. Nid oes gan y rhan fwyaf o eiddo preswyl yn Llandeilo a Ffair-fach dramwyfeydd ac felly mae'n rhaid parcio ar y briffordd sy'n ychwanegu at broblemau tagfeydd ar hyd yr A483.<br><br>Mae gan yr A483 gyfyngiadau topograffigol, yn enwedig o ran y goledd ar yr A483 o'r ddau gyfeiriad tuag at ganol tref Llandeilo, sy'n ymddangos fel petai'n cyrraedd uchafbwynt ar y groesfan sebra. Mae Afon Tywi, yn ogystal â'r bont ffordd un bwa rhestredig Gradd II* (Pont Llandeilo), yn ychwanegu at y cyfyngiadau topograffigol. Mae Rheilffordd Calon Cymru, sy'n rhedeg drwy bentref Ffair-fach, yn mynd heibio i ffin ddwyreiniol Llandeilo.<br><br>Oherwydd natur hanesyddol Llandeilo a Ffair-fach, nodweddir y ddau le gan adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth sy'n effeithio ar y treflun. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys gwelededd is, strydoedd cul, radiws tynn o gorneli a chyffyrdd, strydoedd unffordd, pont restredig a Pharc Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae rhannau o ganol tref Llandeilo mewn Ardal Gadwraeth ac mae |

| Problem Allweddol | Mwy o Fanylion |
|---|---|
| | ffin Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ychydig i'r dwyrain. Yn gyffredinol, mae'n rhaid gwasanaethu busnesau sydd ar yr A483 o'r briffordd ei hun, gan fod diffyg darpariaeth gwasanaethu o gefn yr eiddo, gan gyfrannu ymhellach at broblemau tagfeydd yng nghanol tref Llandeilo.<br>Mae prinder llwybrau dargyfeirio addas ar gyfer cerbydau HGV o gwmpas Llandeilo a Ffair-fach. |
| Diogelwch ar y ffyrdd | Mae pryderon diogelwch ynghylch gwelededd cerddwyr sy'n ceisio croesi'r A483 a strydoedd ochr sy'n arwain at y briffordd. Yn sgil hyn, oherwydd cynllun stryd hanesyddol Llandeilo a Ffair-fach, mae lleiniau gwelededd allan o nifer o gyffyrdd allweddol ar yr A483 yn annigonol ac yn cael eu blocio gan adeiladau hanesyddol yn bennaf. Mae arwyddion ffyrdd sy'n gwrthddweud ei gilydd mewn perthynas â therfynau cyflymder a allai achosi dryswch. Nid oes drychau amgrwm, a allai fod yn fanteisiol yn y dyfodol i yrwyr sy'n ymuno â'r A483 o gyffyrdd, yn y naill ardal anheddiad na'r llall. |
| Traffig ysgol | Mae gan Ysgol Bro Dinefwr ddalgylch sylweddol, sy'n arwain at nifer arwyddocaol o fysiau yn cyrraedd a gadael y safle ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae nifer o'r bysiau yma yn teithio trwy Landeilo ac yn peri tagfeydd yn sgil y posibilrwydd iddynt ffurfio cymdaith. Mae'r traffig yma hefyd yn peri perygl i blant sy'n cerdded neu feicio i'r ysgol o Landeilo neu Ffair-fach.<br><br>I raddau llai, mae trafferthion yn sgil traffig ysgol ynghlwm wrth y tair ysgol gynradd yn Llandeilo a Ffair-fach. Fodd bynnag, oherwydd dalgylch bychan yr ysgolion yma, mae llai o blant yn dod i'r ysgol mewn ceir ac nid oes gofyn am wasanaeth bysiau. |
| Traffig yn atal ymwelwyr (cyfyngiadau ar dwf economaidd) | Mae maint y traffig, yn enwedig nifer y cerbydau HGV sy'n teithio ar yr A483 trwy Landeilo, yn amharu ar apêl y dref a'i strydlun. Mae pryderon bod hyn yn annog ymwelwyr i beidio ag aros yn y dref i siopa neu i ddefnyddio gwasanaethau. |
| Cyflymder traffig | Mae arsylwadau cyffredinol nad yw gyrwyr bob amser yn cadw at derfynau cyflymder wrth geisio symud o gwmpas rhwystrau neu osgoi tagfeydd. Mae hyn hefyd yn cael ei weld yn digwydd wrth nesáu at gylchfan yr A483/A40. Yn ogystal, tynnwyd sylw at broblemau gyda cherbydau sy'n gyrru ar gyflymder amhriodol wrth fynd heibio i gerbydau sydd wedi parcio, a allai arwain at ddamweiniau. Gallai arwyddion terfyn cyflymder sy'n gwrthddweud ei gilydd neu sy'n ddryslyd arwain at yrwyr yn teithio tu hwnt i gyfyngiadau cyflymder. |
| Lefelau dirgryniad | Mae'r llif traffig, yn enwedig symudiadau cerbydau HGV, yn achosi dirgryniad trwy Landeilo. Er bod lefelau dirgryniad yn diflannu'n gyflym, mae pryderon ynghylch yr effaith mae hyn yn ei gael ar yr adeiladau rhestredig sydd ar yr A483 ar hyd Stryd Rhosmaen. |

## 3.2 Amcanion y Cynllun

Nodwyd amcanion y cynllun o ganlyniad i'r gweithdai a'r fforwm cyhoeddus. Bydd yr amcanion hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag Amcanion Llesiant y cyrff cyhoeddus perthnasol a'r amcanion trafnidiaeth ehangach a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru..

Dyma amcanion y cynllun:

1. Cadw swyddogaeth strategol yr A483;
2. Gwella diogelwch cerddwyr a beicwyr yn Llandeilo a Ffair-fach, gan gynnwys llwybrau diogel i'r ysgol;
3. Lleihau gwahanu cymunedol yn Llandeilo a Ffair-fach;

4. Gwella dibynadwyedd amser teithio trwy Landeilo a Ffair-fach;

5. Lleihau tagfeydd trwy Landeilo a Ffair-fach;

6. Cyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy a chyfleoedd twristiaeth yn Llandeilo;

7. Lleihau amlygiad i lygredd aer ar gyfer derbynyddion sensitif; a

8. Cefnogi pontio i gymdeithas carbon isel gan sicrhau bod yr ateb yn gynaliadwy a gwydn, a'i fod yn lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â'r seilwaith trafnidiaeth sy'n cynnwys gwella mynediad at, a darpariaeth, trafnidiaeth gyhoeddus.

Mae rhagor o fanylion am Amcanion Llesiant y cyrff cyhoeddus perthnasol yn cael ei nodi yn yr adroddiad ar yr Ystyriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 .

JACOBS

# 4. Opsiynau Rhestr Hir

Darperir disgrifiadau manwl o'r opsiynau rhestr hir yn Adroddiad Achos Amlinellol Strategol Cam Un WelTAG. Nodir crynodeb o'r opsiynau yma isod.

| Cyf. Opsiwn | Enw a Disgrifiad Opsiwn | Cydymffurfiaeth ag Amcanion y Cynllun | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | **Gwneud y Lleiafswm**<br>Nid yw'r Opsiwn Gwneud y Lleiafswm yn cynnwys gwneud unrhyw welliannau i senario presennol yr A483 o fewn Llandeilo a Ffair-fach. | ✓ | × | × | × | × | × | × | × |
| TC1A | **System Unffordd a Ffordd Osgoi (A)**<br>Cyflwynir cyfyngiadau teithio yng nghanol y dref. Bydd traffig dwyffordd yn parhau o gyffordd yr A40 a bydd cyffordd Heol Newydd/Stryd Caerfyrddin yn parhau'n agored i draffig dwyffordd. Heol Newydd i barhau ar agor i draffig dwyffordd. Stryd Rhosmaen o gyffordd Heol Newydd/Heol Cilgant i Stryd Caerfyrddin a Theras yr Abaty yn newid yn unffordd tua'r de, ond ar agor i bob cerbyd. Cyfyngiad pwysau ar Stryd Rhosmaen o Stryd y Brenin i Gylchfan Ffair-fach. Byddai traffig a ganiateir sy'n teithio tua'r gogledd yn troi i'r chwith i Stryd y Brenin yna i Stryd Sior, yna i Stryd Caerfyrddin/Heol Caerfyrddin i ymuno â'r A40 ar y gyffordd bresennol, gyda chylchfan posibl. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr. Bydd arwyddion rhybudd/dargyfeirio ac arwyddion cyfyngiad pwysau yn Ffair-fach i atal cerbydau HGV rhag croesi Pont Llandeilo ar draws yr Afon Tywi. | ✓ | ✓ | ✓ | Rhannol | Rhannol | ✓ | × | × |
| TC1B | **System Unffordd a Ffordd Osgoi (B)**<br>Traffig dwyffordd o gyffordd yr A40 a chyffordd Heol Newydd/Stryd Caerfyrddin. Heol Newydd i barhau ar agor i draffig dwyffordd. Stryd Rhosmaen o gyffordd Heol Newydd/Heol Cilgant i Stryd Caerfyrddin a Theras yr Abaty yn newid yn unffordd tua'r de, ond ar agor i bob cerbyd. Cyfyngiad pwysau ar Stryd Rhosmaen o Stryd y Brenin i Gylchfan Ffair-fach. Byddai traffig a ganiateir sy'n teithio tua'r gogledd yn troi i'r chwith i Stryd Caerfyrddin yna i Heol Caerfyrddin i ymuno â'r A40 ar y gyffordd bresennol, gyda chylchfan bosibl. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr. Bydd arwyddion rhybudd/dargyfeirio ac arwyddion cyfyngiad pwysau yn Ffair-fach i atal cerbydau HGV rhag croesi Pont Llandeilo ar draws yr Afon Tywi. | ✓ | ✓ | ✓ | Rhannol | Rhannol | ✓ | × | × |

| Cyf. Opsiwn | Enw a Disgrifiad Opsiwn | Cydymffurfiaeth ag Amcanion y Cynllun | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| TC1C | **System Unffordd a Ffordd Osgoi (C)**<br>System unffordd yn defnyddio Heol Cilgant ar gyfer traffig tua'r de a Stryd Rhosmaen ar gyfer traffig tua'r gogledd. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr. | ✓ | ✓ | ✓ | Rhannol | Rhannol | ✓ | × | × |
| TC2 | **System Goleuadau Traffig a Ffordd Osgoi**<br>Gosod goleuadau traffig ar Stryd Rhosmaen i alluogi traffig unffordd ar hyd rhan gulaf y ffordd. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr. | ✓ | × | × | × | × | ✓ | × | × |
| NB1 | **Goleuadau traffig**<br>Gosod goleuadau traffig ar Stryd Rhosmaen i alluogi traffig unffordd ar hyd rhan gulaf y ffordd. Lledu palmentydd oddi mewn i ran unffordd Stryd Rhosmaen i ganiatáu defnydd mwy diogel ohonynt gan gerddwyr. | Rhannol | × | × | ✓ | ✓ | × | Rhannol | × |
| NB2 | **Dileu parcio**<br>Dileu parcio ar hyd Stryd Rhosmaen, yn cael ei orfodi trwy linellau melyn dwbl. Cyfyngiadau 'Llwytho yn Unig' rhwng 18:00 a 07:00, ac yna o 10:00 tan 15:00, a gorfodi dim parcio rhwng 08:00 a 18:00. | Rhannol | × | × | ✓ | ✓ | × | Rhannol | × |
| NB3 | **Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol)**<br>Cyfyngu ar gerbydau HGV trwy Landeilo rhwng 08:00 - 20:00, pob cerbyd HGV i'w cyfeirio ar hyd yr A40 i Gaerfyrddin, i'w orfodi gan gamerâu traffig. Bydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol o gylchfan yr A40 yn Rhosmaen i'r gylchfan yn Ffair-fach. | × | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | × | ✓ | × |
| NB4 | **Cyfyngiad HGV gyda thrwydded/ffi allyriadau**<br>Cyfyngiad ar gerbydau HGV ac eithrio busnesau o fewn pellter penodol, a fyddai â hawl i dderbyn trwydded am ddim. Bydd y drwydded i fusnesau eraill yn ei gwneud yn fwy dichonadwy'n economaidd i fynd trwy Gaerfyrddin yn hytrach na thrwy Landeilo a/neu Ffair-fach. Byddai'r opsiwn yma yn gynllun tebyg i dâl atal tagfeydd//ardaloedd allyriadau. | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | ✓ | × |
| NB5 | **Cyfyngiad HGV (cosb gyfreithiol) a system unffordd**<br>System unffordd gyda mynediad cyfyngedig i gerbydau HGV yn teithio tua'r de o'r A40 i'r | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | ✓ | × |

| Cyf. Opsiwn | Enw a Disgrifiad Opsiwn | Cydymffurfiaeth ag Amcanion y Cynllun | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| | A483, gyda mynediad yn gyfyngedig i gyflenwi nwyddau yn unig. Byddai Stryd Rhosmaen yn unffordd tua'r de, yna yn cyfeirio ar hyd Stryd y Brenin i Heol Caerfyrddin ac yn ôl i'r A40. Byddai cerbydau HGV yn cael eu cyfyngu rhag croesi Pont Llandeilo ar draws yr Afon Tywi tua'r gogledd a byddai'r A483 yn colli'i statws cefnffordd. | | | | | | | | |
| NB6 | **Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (gyda chyfyngiad HGV)**<br>Mae'r opsiwn hwn yn becyn o waith sy'n cyfuno elfennau o NB1, NB2 a NB3. | × | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | ✓ | × |
| NB7 | **Opsiwn cyfun heb ffordd osgoi (dim cyfyngiad HGV)**<br>Mae'r opsiwn hwn yn becyn o waith sy'n cyfuno elfennau o NB1 a NB2. | ✓ | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | ✓ | × |
| BE1A | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 1 (A)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (A) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i'r gorllewin o'r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd. Mae'r llwybr wedyn yn troi tua'r gorllewin, gan groesi'r Afon Tywi cyn ymuno â'r A483 i'r de o Bont Llandeilo. Byddai cylchfan arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar yr A483 i'r de o Bont Llandeilo. Mae'r llwybr wedyn yn mynd ymhellach i'r gorllewin ac yn ymuno â'r A476 i'r dwyrain o Ysgol Bro Dinefwr. Argymhellir adeiladu cylchfan ar yr A476, a byddai'r llwybr wedyn yn mynd tua'r de ddwyrain ac yn ymuno â'r A483 i'r de o Heol Pen Storom. | ✓ | Rhannol | Rhannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| BE1B | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 1 (B)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (B) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i'r gorllewin o'r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd, cyn troi tua'r gorllewin ac ymuno â'r A483 i'r de o Bont Llandeilo. Byddai cylchfan arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar yr A483 i'r de o Bont Llandeilo. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| BE1C | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 1 (C)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (C) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i'r gorllewin o'r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd. Mae'r llwybr wedyn yn troi tua'r gorllewin, gan ymuno â'r A483 i'r de o Bont Llandeilo. Byddai cylchfan arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar yr A483 i'r de o Bont Llandeilo. Mae'r llwybr wedyn yn mynd ymhellach i'r gorllewin ac yn ymuno â'r A476 i'r gorllewin o Ysgol Bro Dinefwr. Argymhellir adeiladu cylchfan ar gyffordd y B4300/ A476. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| Cyf. Opsiwn | Enw a Disgrifiad Opsiwn | Cydymffurfiaeth ag Amcanion y Cynllun | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 |
| BE1D | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 1 (D)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 1 (D) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo, i'r gorllewin o'r rheilffordd ac yn dilyn y rheilffordd. Mae'r llwybr wedyn yn troi tua'r gorllewin, gan groesi'r Afon Tywi cyn ymuno â'r A483 i'r de o Bont Llandeilo. Byddai cylchfan arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar yr A483 i'r de o Bont Llandeilo. Mae'r llwybr wedyn yn mynd ymhellach i'r gorllewin ac yn ymuno â'r A476 i'r gorllewin o Ysgol Bro Dinefwr. Argymhellir adeiladu cylchfan ar gyffordd y B4300/ A476, a ffordd gyswllt o'r gylchfan arfaethedig ar y B4300/A476 i'r A483 i'r de o Heol Pen Storom. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | × | ✓ | × | × |
| BE2 | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 2**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 2 yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo cyn croesi'r rheilffordd a dilyn y rheilffordd tua'r de am Heol Bethlehem. O Heol Bethlehem, byddai'r llwybr yn mynd tua'r de i ymuno â'r A483 i'r gogledd o Heol Pen Storom. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am gyswllt gyda'r A476. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| BE3A | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 3 (A)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 3 (A) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd i'r de ddwyrain o gwmpas ffin Llandeilo cyn croesi'r rheilffordd a'i dilyn tua'r de am ychydig cyn croesi'r Afon Tywi, ac ymuno â Heol Bethlehem oddeutu Geulan-Goch. O'r lleoliad hwn, byddai'r ffordd yn parhau tua'r de, gan osgoi'r hen ysgol uwchradd, ac ymuno â'r A483 i'r de o Heol Pen Storom. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am gyswllt gyda'r A476. | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | × |
| BE3B | **Ffordd Osgoi Ddwyreiniol 3 (B)**<br>Mae Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Opsiwn 3 (B) yn gadael yr A40 ar gylchfan yr A40/A483, gan fynd tua'r de ddwyrain i groesi'r rheilffordd a'r Afon Tywi, cyn troi o gwmpas i'r gogledd ddwyrain o Landeilo. O'r pwynt hwn i'r dwyrain o'r rheilffordd, byddai'r llwybr yn mynd tua'r de gan groesi'r afon sawl gwaith. Byddai'r llwybr wedyn yn croesi Heol Bethlehem rhwng Ffair-fach a'r hen ysgol uwchradd, gan gysylltu â'r A483 i'r gogledd o Heol Pen Storom. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am gyswllt gyda'r A476. | ✓ | ✓ | ✓ | Rhannol | ✓ | ✓ | ✓ | × |

